

[page 1]

Policy in Practice

Effaith gorsaf bŵer Wylfa ar denantiaid preifat incwm isel

[page 2]

Policy in Practice

Gorffennaf 2017

Cynnwys

Crynodeb gweithredol	3
1. Cyflwyniad	5
2. Methodoleg	6
Senario 1	6
Senario 2	6
Senario 3	7
3. Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd	8
Aelwydydd mewn tlodi	8
Cydnherthedd ariannol	9
Lwfans Tai Lleol	10
4. Y rhagolwg ar gyfer 2020	11
Senario 1 – Rhenti yn cynyddu yn unol â'r cyfartaleddau hanesyddol	11
Newid mewn incwm gwario	11
Aelwydydd mewn tlodi	11
Cydnherthedd ariannol	12
Rhewi'r Lwfans Tai Lleol	12
Senario 2 - Rhenti yn cynyddu 25% yn 2020	13
Newid mewn incwm gwario	13
Aelwydydd mewn tlodi.....	13
Cydnherthedd ariannol.....	14
Rhewi'r Lwfans Tai Lleol	15
Senario 3 - Rhenti yn cynyddu 40%	16
Newid mewn incwm gwario	16
Aelwydydd mewn tlodi	16
Cydnherthedd ariannol	17
Rhewi'r Lwfans Tai Lleol	17
Senario 3: manylion yr effaith	19
5. Casgliad ac argymhellion	20
Atodiad 1: ardal allweddol yr effeithir arni	23
Atodiad 2: rhent a Lwfans Tai Lleol	27
Policy in Practice	28
Cysylltu â ni	28

Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith a wnaed i ddadansoddi effaith gorsaf bŵer Wylfa ar denantiaid preifat incwm isel yng Ngogledd-orllewin Cymru. Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar ddata ar lefel aelwyd sy'n nodi incwm, cyflogaeth ac amgylchiadau tai 2,766 o aelwydydd sy'n byw ger safle gorsaf bŵer Wylfa, yn yr hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bod yn ardal allweddol yr effeithir arni¹.

Mae pryder y bydd y galw am dai yn cynyddu yn ystod cam adeiladu'r orsaf bŵer, a fydd yn effeithio ar drigolion sy'n agored i niwed yn yr ardal. Mae'r cap ar gyfraddau'r Lwfans Tai Lleol, y penderfyniad i rewi budd-daliadau a chwyddiant cynyddol, yn ogystal â rhenti sy'n cynyddu, yn golygu y bydd llawer o rentwyr preifat yn yr ardal allweddol yr effeithir arni, yn wynebu costau cynyddol, heb yr adnoddau i'w talu.

Mae Policy in Practice wedi cynnal asesiad annibynnol o'r effeithiau canlyniadol y mae'r gwaith o ddatblygu'r orsaf bŵer yn debygol o'u cael ar drigolion incwm isel sy'n byw yn y sector preifat. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r sefyllfa yn yr ardal allweddol yr effeithir arni ar hyn o bryd ac yn cyflwyno tair senario lle mae rhenti yn y sector preifat yn cynyddu pan fydd y gwaith o adeiladu'r orsaf bŵer yn dechrau.

- Senario 1 (busnes fel arfer): Mae rhenti wedi'u modelu ar y cynnydd a welwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf, sef -0.3% ar Ynys Môn, 0.9% yng Nghonwy a 2.7% yng Ngwynedd²
- Senario 2: cynnydd o 5% mewn rhenti yn y blynyddoedd 2018 a 2019 a 25% yn 2020
- Senario 3: cynnydd o 5% mewn rhenti yn y blynyddoedd 2018 a 2019 a 40% yn 2020

Mae'r senarios yn seiliedig ar astudiaethau achos o fuddsoddiadau mewn seilwaith arall³. Mae'r dadansoddiad yn ystyried diwygiadau lles eraill ochr yn ochr â chynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol, a lwfans treth personol uwch.

Canfyddiadau

Mae tlodi ar ôl costau tai yn cynyddu'n sylweddol wrth i renti wyro oddi wrth gyfraddau'r Lwfans Tai Lleol wedi'u capio. Y gyfradd dlodi ar gyfer yr ardal allweddol yr effeithir arni yn 2017 yw 8.3%. Disgwylir i'r gyfradd dlodi gyffredinol gynyddu i 14.0% yn 2020 ohewydd cyfraddau budd-daliadau wedi'u rhewi, newidiadau i reoliadau budd-daliadau, y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol ac effeithiau chwyddiant. Yn sgil adeiladu'r orsaf bŵer, amcangyfrifwn y bydd tlodi yn yr ardal yn cynyddu mymryn yn unig i 14.3% yn Senario a 14.5% yn Senario 3. Fodd bynnag, mae hyn yn cuddio effaith sylweddol ar bobl sy'n byw yn y sector rhentu preifat. Mae'n anodd modelu cynnydd mewn rhenti yn y sector cymdeithasol oherwydd y

¹ Gweler Atodiad 1 am fap o'r ardal allweddol yr effeithir arni a rhestr o enwau'r ardaloedd.

² Mae hyn yn cyfateb i'r cynnydd cyfartalog mewn rhenti o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer 2013-2014, 2014-2015 a 2015-2016 gan Stats Cymru, sydd ar gael yma: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Private-Sector-Rents>

³ Arweiniodd buddsoddiad yn nocio Sir Benfro at gynydd o 25% mewn rhenti preifat, tra amcangyfrifir bod buddsoddiad yn Aberdeen wedi achosi i renti gynyddu 40%. Cytunwyd ar y senarios hyn â'r cleient er mwyn helpu awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer y senario waethaf bosibl.

ffordd y caiff y cap ar y Lwfans Tai Lleol ei gymhwyso yn y dyfodol. Fodd bynnag, gellid effeithio hefyd ar 'renti fforddiadwy', a bennwyd ar 80% o renti ar y farchnad, a allai effeithio ar 3,624 o aelwydydd.

Rentwyr preifat yw'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf yn achos pob senario. Mae'r gyfradd dlodi ymhlith rentwyr preifat incwm isel mor uchel â 62% heddiw; gallai hyn gynyddu hyd at 24 pwynt canran, i 83% o dan Senario 2 ac 86% o dan Senario 3 yn 2020.

Yn Senario 3 mae 2,386 o aelwydydd incwm isel sy'n byw yn y sector rhentu preifat mewn tlodi, y mae 528 ohonynt mewn gwaith, o gymharu â 440 yn Senario 1. Yn yr un modd, mae 91 yn fwy o aelwydydd unig riant mewn tlodi yn Senario 3 o gymharu â Senario 1. Mae gan 794 o aelwydydd incwm isel sy'n rhentu llety preifat blant mewn tlodi o dan Senario 1, o dan Senario 3 mae'r ffigur hwn yn cynyddu i 921.7

[page 4]

Dengys lefel cydnerthedd ariannol ymhlith tenantiaid preifat incwm isel yn yr ardal, a gyfrifwyd drwy ystyried costau byw ochr yn ochr ag incwm, gynydd mwy brawychus fyth yn nifer yr aelwydydd sy'n wynebu risg ariannol. Gallai cyfran y tenantiaid preifat incwm isel sy'n wynebu diffyg misol rhwng eu hincwm a'u costau byw gynyddu o lai na hanner ar hyn o bryd i bron ddau o bob tri o dan Senario 3.

Tabl 1.1: effeithiau rhenti sy'n newid ar dlodi a chydnerthedd ariannol ar rentwyr preifat incwm isel				
	2017	Senario 1	Senario 2	Senario 3
Mewn tlodi	1,714 (62.0%)	2,088 (75.5%)	2,304 (83.3%)	2,386 (86.3%)
Yn wynebu risg ariannol	1,251 (45.2%)	1,274 (46.1%)	1,623 (58.7%)	1,771 (64.0%)

Heb ymdrechion i leihau'r effaith ar aelwydydd incwm isel, mae'n debygol y bydd tlodi yn dod yn fwy cyffredin yn yr ardal. Bydd nifer gynyddol o aelwydydd yn ei chael hi'n anodd ymdopi, gyda nifer gynyddol o deuluoedd yn wynebu'r risg o gael eu troi allan a bod yn ddigartref. Mae'r dadansoddiad hwn yn amcangyfrif hwn mai cyfanswm costau digartrefedd i'r tri awdurdod lleol yw £1.1 miliwn o dan Senario 2 ac £1.6 miliwn o dan Senario 3.

Comisiynodd Cyngorau Ynys Môn, Conwy a Gwynedd a Llywodraeth Cymru yr adroddiad hwn er mwyn deall effaith cynnydd sylweddol mewn rhenti a chael cyfle i weithredu er mwyn sicrhau y caiff yr effaith ar aelwydydd incwm isel ei lliniaru.

Gall y tri chyngor ystyried:

- Defnyddio'r adroddiad hwn i ofyn am Gyllid Fforddiadwyedd wedi'i Dargeu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, er mwyn cynyddu cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol yn yr ardal.
- Gweithio gydag eraill i adeiladu cartrefi ychwanegol yn yr ardal allweddol yr effeithir arni, lle mae'r galw yn debygol o fod ar ei fwyaf.

- Gweithio gyda sefydliadau cyflogadwydd er mwyn sicrhau y gall trigolion incwm isel yn yr ardal fanteisio ar y cyfleoedd gwaith ychwanegol a grëir gan yr orsaf bŵer.
- Targedu cymorth at aelwydydd y mae effaith gyffredinol cynnydd mewn rhenti a diwygiadau eraill yn cael effaith negyddol arnynt neu sy'n wynebu rhwystrau mawr i gael gwaith.

[page 5]

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau dadansoddiad o'r effaith y mae adeiladu gorsaf bŵer Wylfa yn debygol o'i chael ar yr ardal o'i hamgylch ac, yn benodol, denantiaid preifat incwm isel. Cynhaliwyd y dadansoddiad gan Policy in Practice ac fe'i comisiynwyd gan Gyngor Ynys Môn, Cyngor Conwy, Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru.

Mae data'r 'Single Household Benefit Extract' (SHBE), sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am bob aelwyd yn y tri awdurdod lleol sy'n cael Budd-dal Tai, wedi ffurfio'r sail ar gyfer dadansoddi effaith adeiladu'r orsaf bŵer. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar denantiaid preifat sy'n hawlio Budd-dal Tai ac sy'n byw yn yr ardal allweddol⁴ yr effeithir arni, sef yr ardal sy'n agos at safle'r orsaf bŵer.

Mae'r adroddiad yn asesu goblygiadau'r cynnydd mawr ym mhrisiau rhenti, sy'n deillio o'r galw uchel am lety yn y blynyddoedd cyn i'r orsaf bŵer gael ei hadeiladu, i safonau byw tenantiaid preifat dan anfantais.

Bydd y canfyddiadau yn helpu awdurdodau lleol i baratoi ar gyfer nifer o senarios gwahanol, er mwyn gwneud y canlynol:

- Llunio trosolwg o effaith nifer o wahanol godiadau rhent ar denantiaid preifat yn yr ardal.
- Darparu dull seiliedig ar dystiolaeth i Gynghorau Ynys Môn, Conwy a Gwynedd a Llywodraeth Cymru ymgysylltu â Horizon a Llywodraeth y DU er mwyn amlygu rhai o'r materion allweddol sy'n ymwneud ag argaeledd cartrefi fforddiadwy a rhewi cyfraddau budd-dal tai.
- Galluogi'r tri awdurdod lleol i gymryd camau rhagataliol mewn perthynas â'r effaith bosibl ar dai, gan gynnwys dadleoli trigolion lleol a digartrefedd.

Bydd yr adroddiad hwn yn asesu effaith y tair senario, y mae pob un ohonynt yn modelu gwahanol lefelau o gynnydd mewn rhenti preifat. Ceir rhagor o fanylion am y tybiaethau a ystyriwyd ym mhob senario yn yr adran sy'n ymdrin â methodoleg. O dan bob senario mae ein dadansoddiad yn nodi'r canlynol:

- Yr incwm gwario y gall aelwydydd ddisgwybl ei golli o ganlyniad i renti uwch
- Nifer y tenantiaid sy'n wynebu risg ariannol
- Cyfran yr aelwydydd a fyddai'n mynd o dan y ffin tlodi

⁴ I gael manylion yr ardal allweddol yr effeithir arni, a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, gweler Atodiad 1

- Nifer yr aelwydydd sy'n talu rhent uwchlaw cyfradd y Lwfans Tai Lleol

[page 6]

2. Methodoleg

Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar ddata'r 'Single Housing Benefit Extract' (SHBE) a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o Ynys Môn, Conwy a Gwynedd, ym mis Mawrth 2017.

Mae SHBE yn set ddata Budd-dal Tai a ddarperir bob mis i'r Adran Gwaith a Phensiynau gan awdurdodau lleol. Mae'r set ddata yn cynnwys data ar lefel unigolyn ac, felly, mae adnodd cyfoethog ar gyfer dadansoddi effaith diwygiadau lles ar lefel unigolyn a lefel gyfunol. Mae'n cynrychioli aelwydydd incwm isel, a ddiffinnir fel y rhai sy'n cael Budd-dal Tai. Mae Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cynnwys data tebyg ar gyfer pob aelwyd sy'n cael cymorth y dreth gyngor.

Llofnodd Cyngor Ynys Môn, Cyngor Conwy a Chyngor Gwynedd gytundeb rhannu data diogel â Policy in Practice ac mae gwybodaeth a allai ddatgelu manylion personol unigolyn wedi'i dileu o'r data. Mae Policy in Practice wedi trosi'r data yn fformat sy'n gydnaws â pheiriant meddalwedd Adnodd Cyfrifo Credyd Cynhwysol, sy'n modelu effeithiau cyfunol gwahanol newidiadau polisi ar bob aelwyd unigol.

Mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar ddangos yr effaith y bydd adeiladu gorsaf bŵer Wylfa yn ei chael ar yr ardal o'i hamgylch, drwy fodelu tair senario. Mae'r senarios yn disgrifio sut y bydd yr amgylchiadau sy'n ymwneud â thai ac incwm tenantiaid preifat incwm isel sy'n byw yn yr ardal allweddol yr effeithir arni yn newid erbyn 2020.

Y prif newid a gaiff ei fodelu yn y dadansoddiad hwn yw cynnydd mawr mewn rhenti preifat. Fodd bynnag, ystyrir sawl ffactor arall megis chwyddiant uwch⁵ a newidiadau i reoliadau budd-daliadau, gan gynnwys y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol ledled y DU. Yn ogystal â hyn, mae ein dadansoddiad yn ystyried newidiadau polisi a fydd yn dod i rym o fis Ebrill 2018 ymlaen, megis y cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol i £8.80 yr awr a'r lwfans personol uwch o £12,500.

Senario 1

Mae Senario 1 yn modelu cynnydd mewn rhenti preifat yn seiliedig ar ddata hanesyddol o'r tair blynedd diwethaf. Diben y senario hon yw dangos sut yr effeithid ar yr ardal allweddol yr effeithir arni pe bai cyfraddau rhent yn parhau i gynyddu ar eu cyfraddau presennol. Mae canfyddiadau'r model hwn yn rhoi llinell sylfaen ar gyfer cymharu â'r ddwy senario arall er mwyn deall effaith yr orsaf bŵer yn well. Cyfraddau'r cynnydd mewn prisiau rhent a fodelwyd yw -0.25% ar Ynys Môn, 0.9% yng Nghonwy a 2.7% yng Ngwynedd².

⁵ Data ar chwyddiant cenedlaethol a gymerwyd o siartiau a thablau rhagolygon economaidd a chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (Mawrth 2016): budgetresponsibility.org.uk/download/economic-and-fiscal-outlook-supplementary-fiscal-tables-march-2016

Senario 2

Mae Senario 2 yn seilio'r cynnydd rhagamcanol mewn prisiau rhent ar brofiad Sir Benfro. Yn Sir Benfro cynyddodd rhenti preifat yn sylweddol yn sgil adeiladu gorsaf bŵer yno yn 2008. Mae'r dadansoddiad ar gyfer y senario hon yn rhagamcanu cynnydd o 5% mewn rhenti preifat ar gyfer y blynyddoed 2018 a 2019 a chynnydd o 25% ar gyfer 2020. Mae hyn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ac fe'i cadarnheir gan ymchwil a wnaed ar gyfer Grŵp Cynllunio Gofodol Hafan Sir Benfro, sy'n nodi bod adeiladu'r orsaf bŵer wedi cael effaith sylweddol ar y farchnad dai leol. Er enghraifft, cynyddodd prisiau tai hyd at 20% ar gyfer eiddo a oedd yn werth llai 150,000, gyda chynnydd tebyg ar gyfer prisiau rhent yn y sector preifat⁶.

[page 7]

Senario 3

Mae Senario 3 yn modelu'r cynnydd rhagamcanol mewn rhenti yn seiliedig ar brofiad Swydd Aberdeen. Yn Swydd Aberdeen cynyddodd rhenti preifat yn sylweddol o galyniad i fuddsoddiadau sylweddol mewn seilwaith ar gyfer adeiladu'r orsaf bŵer a datblygu llwyfannau olew. Mae'r dadansoddiad yn yr adroddiad hwn yn rhagamcanu cynnydd o 5% mewn rhenti preifat ar gyfer y blynyddoed 2018 a 2019 a chynnydd o 40% yn 2020. Darparwyd y ffigurau hyn gan Lywodraeth Cymru ac maent yn seiliedig ar amcangyfrifon ynghylch effaith buddsoddiadau mawr mewn seilwaith ar y farchnad dai leol yn Swydd Aberdeen.

Mae rhai cyfyngiadau cyffredinol ar y fethodoleg hon:

- Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar y cynnydd mewn rhenti a ddisgrifwyd uchod. Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn rhagamcanion o'r effaith y gellid ei gweld yn yr ardal allweddol yr effeithir arni. Mewn gwirionedd, mae'n bosibl y bydd adeiladu'r orsaf bŵer ar Ynys Môn yn cael llai o effaith neu fwy o effaith na'r amcangyfrifon o Sir Benfro neu Swydd Aberdeen.
- Mae'r dadansoddiad yn modelu senarios yn seiliedig ar y data cyfredol. Golyfa hyn nad yw'r dadansoddiad yn ystyried y ffaith y gallai amgylchiadau aelwyd newid; yn hytrach, dengys beth fyddai'r effaith ar lwyth achosion presennol SHBE o dan y tair senario a gyflwynir.
- Rydym yn tybio y caiff Credyd Cynhwysol ei roi ar waith yn llawn erbyn 2020. Mae hon yn dybiaeth resymol, am fod cynlluniau'r Adran Gwaith a Phensiynau ar waith i gyflwyno Credyd Cynhwysol yn llawn erbyn 2020-21⁷. Fodd bynnag, mewn gwirionedd mae'n bosibl y bydd nifer yr aelwydydd sy'n cael Credyd Cynhwysol yn is na'r disgwyl⁸.

⁶ Gweler yma: www.pembrokeshire.gov.uk/objview.asp?object_id=2743

⁷ Gweler yma: <https://www.gov.uk/government/publications/dwp-single-departmental-plan-2015-to-2020/dwp-single-departmental-plan-2015-to-2020>

⁸ Er nad oes ymchwil swyddogol ar y pwnc hwn, rydym wedi clywed gwybodaeth anecdotaidd gan sawl Awdurdod Lleol, sy'n awgrymu bod lefelau mudo mor uchel â 25%. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni

- Mae'n bosibl y bydd yr orsaf bŵer newydd yn creu mwy o gyfleoedd gwaith i aelwydydd sy'n destun y dadansoddiad hwn. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth o'r effaith hon yn Sir Benfro – nid yw'n glir a effeithiodd y gwaith o adeiladu gorsaf bŵer Sir Benfro ar gyfraddau cyflogaeth lleol⁹, er nad oes amheuaeth na chafodd effaith gadarnhaol ar yr economi leol yn gyffredinol¹⁰.

[page 8]

3. Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd

Mae cyfanswm o 12,133 o deuluoedd incwm isel yn byw yn yr ardal allweddol yr effeithir arni yn agos at y safle lle y caiff gorsaf bŵer Wylfa ei hadeiladu. O'r 12,133 o aelwydydd hyn mae 2,766 (22.8%) yn rhentwyr preifat. Mae'r dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar y grŵp hwn o aelwydydd, am ei bod yn debygol y bydd newidiadau mewn prisiau rhent yn ystod y blynyddoedd y bydd yr orsaf bŵer yn cael ei hadeiladu yn effeithio arnyn nhw.

Mae 20.9% o'r garfan o oedran pensiwn, gyda'r 79.1% sy'n weddill (2,188 o aelwydydd) o oedran gweithio. Mae gan 36.4% o aelwydydd blant, gyda chyfanswm o 1,862 o blant yn y garfan hon. Mae'r mwyafrif (54.4%) o'r aelwydydd hyn yn cynnwys un oedolyn ac mae un o bob pum teulu yn gweithio.

Ffigur 3.1: Nodweddion rhentwyr preifat mewn ardaloedd allweddol yr effeithir arnynt

Math o aelwyd

11.4%
9.2%
25.1%
54.4%

Cwpl â phlant
Cwpl heb blant
Unig riant
Un person

Statws economaidd

3.2%
42.8%
23.5%
22.1%
8.4%

⁹ Cynyddodd diweithdra mewn gwirionedd yn ystod cam adeiladu'r orsaf bŵer rhwng 2009-12, er bod hynny'n cyd-daro â dirwasgiad mawr 2008-12. Gweler ystadegau'r SYG yma:

http://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157391/subreports/ea_time_series/report.aspx?

¹⁰ Amcangyfrifir bod yr orsaf bŵer yn werth £10 miliwn y flwyddyn i'r economi leol, gweler yma: <http://www.itv.com/news/wales/2012-09-19/1bn-new-pembrokeshire-power-station-to-open/>

Yn gweithio
Ddim yn gweithio – gofalwr
Ddim yn gweithio – anabl
Ddim yn gweithio – unig riant
Ddim yn gweithio – arall

Anabled

6.6%
21.8%
16.8%
54.8%

Lwfans Byw i'r Anabl a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
Lwfans Byw i'r Anabl yn unig
Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn unig
Ddim yn anabl

Aelwydydd mewn tlodi

Er mwyn amcangyfrif lefel bresennol tlodi yn yr ardal, mae'r dadansoddiad yn defnyddio'r mesur incwm cymharol ar gyfer costau tai¹¹, wedi'i addasu ar gyfer cyfansoddiad aelwydydd¹². Mae tlodi cymharol yn ffordd safonol o fesur amddifadedd economaidd mewn gwledydd datblygedig ac fe'i defnyddir gan lawer o sefydliadau rhyngwladol blaenllaw yn ogystal â Llywodraeth y DU¹³. Mae'r cyfrifiad yn cymryd 60% o incwm aelwydydd canolrifol cenedlaethol ac yn ei addasu ar gyfer cyfansoddiad yr aelwyd. Golyga hyn fod ffin tlodi ar gyfer un person yn llawer is nag ar gyfer teulu. Drwy gynnwys costau tai yn y cyfrifiad hwn gallwn fodelu'r newid mewn lefelau tlodi a achosir gan gynydd mewn rhenti yn effeithiol. Mae'n ffordd realistig o ddangos incwm a safon byw aelwyd¹⁴ ac mae'n arbennig o ddefnyddiol mewn ardaloedd lle mae costau rhentu yn uchel.

[page 9]

Yn yr ardal allweddol yr effeithir arni, mae 8.3% o'r boblogaeth gyfan yn byw mewn tlodi cymharol. Y gyfradd hon ymhlith rhentwyr preifat sy'n hawlio Budd-dal Tai yw 62.0%. Mae'n debyg bod y nifer fawr o rentwyr preifat sydd mewn tlodi i'w phridoli i'r bwlch rhwng rhenti a faint o Fudd-dal Tai y gellir ei hawlio, sydd fel arfer yn fwy ymhlith tenantiaid prifat nag ymhlith tenantiaid cymdeithasol. O'r rhai sydd mewn tlodi mae'r mwyafrif helaeth (85.4%) o oedran gweithio.

Cydnherthedd ariannol

¹¹ Daw ffigurau incwm canolrifol, gan gynnwys costau tai (morgais, rhent ac ati) o Households Below Average Income (HBAI). Gweler yma:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/600091/households-below-average-income-1994-1995-2015-2016.pdf

¹² Yn seiliedig ar raddfa cyfwerthedd eiledol OECD.

¹³ Gweler y SYG <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/personalandhouseholdfinances/incomeandwealth/articles/persistentpovertyintheukandeu/2014>

¹⁴ Gweler y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant: <http://www.cpag.org.uk/content/uk-poverty-line>

Mewn partneriaeth â nifer o awdurdodau lleol, mae Policy in Practice wedi datblygu dangosydd safonau byw ar gyfer teuluoedd incwm isel sy'n ystyried costau aelwyd. Caiff y rhain eu modelu gan ddefnyddio ffigurau sbardun yr Ymddiriedolaeth Cyngor ar Arian ac maent yn cynnwys costau tai, biliau'r dreth gyngor (ar ôl ystyried cymorth y dreth gyngor), biliau cyfleustodau, costau teithio a chostau aelwyd eraill. O'i gymharu â mesurau eraill, gan gynnwys tlodi cymharol, mae'r dull hwn yn ystyried anghenion yr aelwyd a gellir dadlau ei fod yn asesu'r risg ariannol y mae pob aelwyd yn ei hwynebu yn well. O safbwynt darpariaeth llesiant leol, gall y dangosydd hwn helpu i lywio penderfyniadau gweithredol drwy nodi'r teuluoedd hynny sy'n wynebu argyfwng ariannol ac sy'n debygol o fynd i ddyled â'u rhent neu a allai gael eu troi allan o'u cartrefi.

Caiff pob aelwyd ei chymharu yn erbyn ei chostau byw ac wedyn ei dosbarthu'n wahanol grwpiau o 'risg ariannol'. Mae'r grwpiau fel a ganlyn:

- **Ymdopi** – mae incwm net aelwyd yn fwy na'r costau digwylledig, a hynny o fwy na £100 y/m
- **Ei chael hi'n anodd ymdopi** – mae incwm net aelwyd yn fwy na'r costau disgwylledig, a hynny o lai na £100 y/m
- **Yn wynebu risg** – mae costau disgwylledig aelwyd yn fwy na'i hincwm

Dengys Ffigur 3.2 sut mae aelwydydd yn y garfan hon yn cyd-fynd â'r categorïau hyn. Mae 43.9% o aelwydydd (1,214) yn ymdopi, tra bod 45.2% o aelwydydd yn wynebu risg ariannol a diffyg rhwng eu hincwm a'u costau ar hyn o bryd.

[page 10]

Ffigur 3.2: Risg ariannol 2017

% o aelwydydd

Ymdopi

Ei chael hi'n anodd ymdopi

Yn wynebu risg

Lwfans Tai Lleol

Cyflwynwyd y Lwfans Tai Lleol ym mis Ebrill 2008 a newidiodd Fudd-dal Tai yn sylweddol ar gyfer pobl sy'n byw yn y sector rhentu preifat. Mae'n gosod cap ar uchafswm y rhent a gaiff ei ystyried wrth gyfrifo Budd-dal Tai hawlydd. Mae cyfradd y Lwfans Tai Lleol a ddefnyddir yn seiliedig ar ranbarthau daearyddol eang, cyfansoddiad aelwydydd ac oedran aelodau'r aelwyd. I bob pwrpas, nid yw Budd-dal Tai yn ymwneud â'r union rent a godir oni bai bod y rhent yn cyfateb i swm y Lwfans Tai Lleol a ddefnyddir neu islaw'r swm hwnnw.

O'r 2,766 o aelwydydd yn y garfan, mae'r rhent o godir ar 75.4% yn uwch na'u cyfradd Lwfans Tai Lleol berthnasol a ddefnyddir i gyfrifo Budd-dal Tai. Y gwahaniaeth rhwng rhent a Budd-dal Tai yw £25.62 yr wythnos, ar gyfartaledd.

[page 11]

4. Y rhagolwg ar gyfer 2020

Senario 1 –Rhenti yn cynyddu yn unol â'r cyfartaleddau hanesyddol

Dengys yr adran hon sut yr effeithid ar rentwyr preifat incwm isel yn yr ardal allweddol yr effeithir arni yn 2020 pe bai rhenti yn parhau i gynyddu ar eu cyfraddau cyfredol.

O ystyried yr holl newidiadau polisi a newidiadau macro-economaidd perthnasol fel y'u nodir yn yr adran sy'n ymdrin â methodoleg, y cynnydd mewn rhenti preifat yn 2020 sy'n cael eu moderlu yn y senario hon yw -0.9% ar Ynys Môn, 2.7% yng Nghonwy a 6.2% yng Ngwynedd.

Newid mewn incwm gwario

Dengys ein dadansoddiad effaith gronol y newidiadau hyn ar incwm pob aelwyd. Yn Senario 1, bydd incwm gwario gwirioneddol (h.y. ar ôl ystyried costau tai a chwyddiant) 55.1% o aelwydydd yn y garfan yn gostwng fwy na £50, a dim ond 8.9% o aelwydydd a fyddai'n colli llai na £15 yr wythnos. Gan nad yw lefelau rhent wedi newid yn sylweddol yn Senario 1, y prif ffactorau sy'n gyfrifol am y fath ostyngiad mewn incwm yw cyflwyno Credyd Cynhwysol (a fydd ar ei ben ei hun yn golygu bod 2,064 o aelwydydd ar eu colled) a'r cynnydd rhagamcanol sylweddol yn y gyfradd chwyddiant. Ymhlith y rhai yr effeithir arnynt fwyaf o dan y senario hon mae aelwydydd â phlant a'r rhai sy'n gweithio.

Aelwydydd mewn tlodi

O dan Senario 1, byddai 14.0% o'r holl aelwydydd sy'n byw yn yr ardal allweddol yr effeithir arni yn syrthio islaw ffin tlodi, sy'n cyfateb i gynnydd o 5.7 pwynt canran o gymharu â'r lefel bresennol.

Ymhlith tenantiaid preifat incwm isel, mae'r gyfran mewn tlodi yn cynyddu i 75.5%, o gymharu â 62.0% yn 2017.

Ffigur 4.1: Cyfran tenantiaid preifat incwm isel mewn tlodi, 2017 a 2020

Mewn tlodi
% o aelwydydd
2017
2020 S1

[page 12]

Cydnerthedd ariannol

Mae lefel y risg ariannol y mae aelwydydd yn ei hwynebu a nodir o dan Senario 1 yn eithaf tebyg i'r sefyllfa bresennol. Mae hyn i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith bod lefelau rhenti wedi parhau'n ddigyfnewid i raddau helaeth – mewn gwirionedd, mae costau tai yn cyfrif am gyfran sylweddol o wariant wedi'i fodelu aelwyd. Mae cyfran yr aelwydydd sy'n wynebu risg ariannol yn cynyddu ychydig o dan y senario hon, i 46.1%. Mae'r rhain yn aelwydydd sy'n wynebu diffyg misol rhwng eu costau a'u costau byw.

Ffigur 4.2: Cyfran y tenantiaid preifat incwm isel sy'n wynebu risg ariannol, 2017 a 2020

% o aelwydydd

Ymdopi

Ei chael hi'n anodd ymdopi

Yn wynebu risg

Risg ariannol 2017

Risg ariannol 2020 S1

Rhewi'r Lwfans Tai Lleol

Ers 2015, mae'r Llywodraeth wedi rhewi cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol ledled y weld am y pedair blynedd nesaf er mwyn ceisio arafu'r cynnydd mewn rhenti a lleihau gwariant ar fudd-daliadau oedran gweithio. Yng nghyd-destun yr ardal allweddol yr effeithir arni, ni fyddai'r ffaith bod cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol wedi'u rhewi yn arwain yn gynnydd sylweddol yn nifer yr aelwydydd sy'n talu rhwnt sy'n uwch na chyfradd y Lwfans Tai Lleol yn Senario 1. O dan yr amgylchiadau sy'n cael eu modelu yma, mae 76.5% o aelwydydd yn talu rhent uwchlaw cyfradd y Lwfans Tai Lleol.

[page 13]

Senario 2 - Rhenti yn cynyddu 25% yn 2020

Dengys yr adran hon sut yr effeithid ar rentwyr preifat yn yr ardal allweddol yr effeithir arni pe câi cynnydd mewn rhent tebyg i'r cynnydd a gadarnhawyd yn Sir Benfro ei gymhwyso at y model hwn.

O ystyried yr holl newidiadau polisi a newidiadau macro-economaidd perthnasol fel y'u nodir yn yr adran sy'n ymdrin â methodoleg, y newid allweddol yn y senario hon yw cynnydd yn yr holl brisiau rhent preifat o 5% yn y blynyddoedd 2018 a 2019 a chynnydd o 25% yn 2020.

Newid mewn incwm gwario

O dan Senario 1 disgwylid i 55.1% o aelwydydd golli mwy na £50 yr wythnos o gymharu â'u lefel bresennol o incwm – o dan Senario 2 mae'r ffigur hwn yn cynyddu i 81.2%. Mae'r gwahaniaeth hwn i'w briodoli i'r prisiau rhent uwch sydd wedi'u modelu

o dan y senario hon, sy'n effeithio ar yr holl denantiaid incwm isel yn y sector rhenu preifat yn yr ardal.

Aelwydydd mewn tlodi

O dan Senario 2 mae 14.3% o'r holl aelwydydd sy'n byw yn yr ardal allweddol yr effeithir arni mewn tlodi, o gymharu â 14.0% o dan Senario 1.

Dengys Ffigur 4.3 isod gyfran y rhentwyr preifat incwm isel sydd mewn tlodi yn 2017 a 2020, o dan Senario 1 a Senario 2. Yn y garfan hon mae lefelau tlodi yn cynyddu o 62% yn 2017 i 75% yn Senario 1 i 83% yn Senario 2.

Ffigur 4.3: Cyfran yr aelwydydd incwm isel sy'n rhentu llety preifat sydd mewn tlodi, 2017 a 2020

Mewn tlodi
% o aelwydydd
2017
2020 S1
2020 S2

Wrth gymharu'r canfyddiadau ar gyfer Senario 1 a Senario 2, mae'n amlwg bod y dadansoddiad o lefelau tlodi yn nodi newid ymylol llai yn nifer yr aelwydydd yr effeithir arnynt (1 o aelwydydd mewn tlodi), o gymharu â mesur cydnerthedd ariannol (2 o aelwydydd sy'n wynebu risg ariannol), o ganlyniad i'r cynnydd a welir mewn prisiau rhent preifat o ganlyniad i adeiladu gorsaf bŵer Wylfa. Mae hyn yn unol â'r disgwyliadau. Mae mesur tlodi cymharol wedi'i fodelu, mewn gwirionedd, ar sail incwm yr aelwyd, sydd wedi parhau'n ddigymffwrdd rhwng dwy senario 2020. Ar y llaw arall, mae dangosydd cydnerthedd ariannol Policy in Practice yn seiliedig ar amcangyfrif o gostau byw penodol yr aelwyd, sy'n amrywio'n sylweddol o dan y ddwy senario oherwydd y cynnydd mewn prisiau rhent.

[page 14]

Cydnerthedd ariannol

Newidiodd lefelau risg ariannol y mae aelwydydd yn ei hwynebu yn sylweddol o dan Senario 2. Dengys Ffigur 4.4 y gymhariaeth ar gyfer y dangosydd hwn rhwng y tair prif senario a fodelwyd hyd yn hyn.

Mae 43.5% o aelwydydd wed'u dosbarthu'n rhai sy'n ymdopi yn Senario 1, tra bod y ffigur hwn yn gostwng i 33.7% yn Senario 2. Mae'r gostyngiad hwn yn golygu bod nifer fawr o aelwydydd bellach yn wynebu risg ariannol. O dan Senario 2, mae cyfran y teuluoedd sy'n wynebu diffyg misol rhwng eu hincwm a'u costau yn cynyddu o 46.1% i 58.7%.

Yr hyn sy'n nodedig am y graff hwn yw nad yw'r risg ariannol yn newid fawr ddim rhwng 2017 a Senario 1, tra bod cyfran yr aelwydydd sy'n wynebu risg ariannol yn cynyddu'n sylweddol o dan Senario 2. Disgwylir i'r cynnydd mewn rhenti sydd wedi'i fodelu yn Senario 2 gael effaith fawr ar risg ariannol, a all effeithio ar lefelau digartrefedd yn yr ardal allweddol yr effeithir arni.

Ffigur 4.4: Risg ariannol ymhlith rhentwyr preifat incwm isel yn 2017, S1 a S2

% o aelwydydd

Ymdopi

Ei chael hi'n anodd ymdopi

Yn wynebu risg

2017

2020 S1

2020 S2

Mae'r dadansoddiad yn awgrymu y byddai'r aelwydydd hyn yn wynebu sefyllfa ariannol ddifrifol. Byddai'r cynnydd sylweddol mewn prisiau rhent, heb gynydd cyfatebol yn y Budd-dai Tai y gallant eu hawlio, yn golygu bod diffygion sylweddol yng nghyllidebau'r aelwydydd hyn. Mae'n hawdd rhagweld goblygiadau hyn: byddai teuluoedd yn ei chael hi'n anodd cyflawni eu rhwymedigaethau ariannol ac, yn y pen draw, byddent ar ei hôl hi o ran eu taliadau rhent. Heb gymorth, mae'n debyg y byddent yn wynebu'r risg o gael eu troi allan o'u catrefi, gyda goblygiadau costus posibl i'r tri chyngor.

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i ddarparu tai i deuluoedd digartref yr ystyrir eu bod yn agored i niwed. Ar hyn o bryd mae'r ddyletswydd hon yn cwmpasu achosion sy'n ymwneud â theuluoedd â phlant bron yn llwyr, ond caiff ei hystyngi i gynnwys aelwydydd un person ar ôl i'r Bil Lleihau Digartrefedd newydd ddod yn weithredodl yn 2018. Mae'r New Economy Manchester yn amcangyfrif bod ymdrin ag achos sy'n ymwneud â digartrefedd yn costio tua £8,800¹⁵ y flwyddyn i awdurdodau lleol (ar ôl ystyried cymorthdaliadau Budd-dal Tai). Os tybiwn y byddai pob un o'r 125 o aelwydydd sy'n wynebu diffyg misol o £200 yr wythnos o dan Senario 2 yn wynebu'r risg o gael eu troi allan o'u cartrefi ac y byddai angen eu rhoi mewn llety dros dro, yna byddai cyfanswm y costau i'r tri chyngor lleol yn £1.1 miliwn erbyn 2020.

[page 15]

Rhewi'r Lwfans Tai Lleol

Yng nghyd-destun yr ardal allweddol yr effeithir arni, byddai'r ffaith bod cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol wedi'u rhewi yn her sylweddol i bocedi tenantiaid preifat incwm isel, a fydd yn wynebu cynnydd sylweddol ym mhrisiau llety.

Dengys Tabl 4.1 sut y disgwylid i renti preifat gynyddu rhwng eiddo o faint gwahanol. Mae'n nodi sut y byddai rhenti yn newid yn sylweddol o dan y senario hon. Bydd hyd yn oed y rhai sy'n byw mewn cartrefi ag un ystafell wely yn wynebu cynnydd o £30 yr wythnos yn eu rhenti. Bydd y rhai sy'n byw mewn eiddo mwy o faint yn wynebu rhenti sydd gryn dipyn yn uwch na'r cyfraddau cyfredol.

¹⁵ <http://www.neweconomymanchester.com/our-work/research-evaluation-cost-benefit-analysis/cost-benefit-analysis/unit-cost-database>

Mae ein dadansoddiad yn awgrymu y bydd y cap ar y Lwfans Tai Lleol yn effeithio ar 532 o rentwyr preifat ychwanegol os bydd rhenti yn cynyddu ar y cyfraddau sydd wedi'u modelu o dan y senario hon, y mae'r mwyafrif llethol ohonynt yn aelwydydd un person neu unig riant. Byddai hyn yn cynyddu cyfanswm yr aelwydydd y mae'r cap ar y Lwfans Tai Lleol yn effeithio arnynt i 2,617, sef 94.6% o'r garfan. Diffyg wythnosol yr aelwydydd hyn, rhwng eu rhent a'u Budd-dal Tai, yw £56.63, ar gyfartaledd. Ceir crynodeb cynhwysfwr o'r gwahaniaethau cyfartalog rhwng rhenti a'r Lwfans Tai Lleol yn Atodiad 3 ac Atodiad 4.

Tabl 4.1: Cynnydd mewn rhenti yn Senario 2

	Rhent Preifat (wythnosol)		
	Cyfartaledd presennol	Cyfartaledd S2	Newid mewn rhent
1 ystafell wely	£86.63	£119.38	£32.75
2 ystafell wely	£110.44	£152.19	£41.75
3 ystafell wely	£123.91	£170.75	£46.84
4 ystafell wely	£139.99	£192.91	£52.92
5 ystafell wely	£160.17	£220.72	£60.55

Tabl 4.2: Aelwydydd sy'n talu rhent sydd bellach uwchlaw cyfradd y Lwfans Tai Lleol, yn ôl math o aelwyd

Math o aelwyd	Nifer yr aelwydydd ychwanegol S2
Cwpl â phlant	56
Cwpl heb blant	23
Unig riant	127
Un person	326

[page 16]

Senario 3 - Rhenti yn cynyddu 40%

Dengys yr adran hon sut yr effeithid ar y garfan o rentwyr preifat yn yr ardal allweddol yr effeithir arni pe bai rhenti yn cynyddu ar gyfraddau debyg i'r rhai a welwyd yn Swydd Aberdeen, yn sgil datblygu gorsaf bŵer ac adeiladu llwyfannau olew.

Y newid allweddol sy'n cael ei fodolu gan y senario hon yw bod rhenti preifat yn cynyddu 5% yn y blynyddoedd 2018 a 2019 a 40% yn 2020.

Newid mewn incwm gwario

Byddai cyfran yr aelwydydd y disgwylir iddynt golli mwy na £50 yr wythnos o dan Senario 3 yn cynyddu ymhellach o'r ffigur a nodwyd yn yr adran flaenorol, sef 81%, i 88%, sy'n ffigur syfrdanol. I bob pwrpas, dim ond 332 allan o 2,766 o aelwydydd a fyddai'n gweld gostyngiad o lai na £50 yn eu hincwm gwirioneddol.

Aelwydydd mewn tlodi

O dan Senario 3, byddai 14.5% o'r boblogaeth gyfan sy'n byw yn yr ardal allweddol yr effeithir arni yn byw mewn tlodi, o gymharu â 14.0% a 14.3% fel y'u modelwyd y naill o dan Senario 1 a'r llall o dan Senario 2.

Dengys Ffigur 4.5 isod gyfran y rhentwyr preifat incwm isel mewn tlodi yn 2017, Senario 1, Senario 2 a Senario 3. Mae 86% o'r aelwydydd yn yr ardal allweddol yr effeithid arni mewn tlodi yn Senario 3, sef 24 pwynt canran yn fwy nag yn 2017 a 3% yn fwy nag yn Senario 2. Mae llai o aelwydydd yn syrthio o dan ffin tlodi wrth i lefelau rhent gynyddu rhwng senarios 2 a 3 – un dehongliad o hyn yw bod y rhan fwyaf o aelwydydd eisoes mewn tlodi yn Senario 1 ac, felly, fod llai o aelwydydd a allai syrthio o dan ffin tlodi yn Senario 2 a Senario 3. Hyd yn oed os na fydd lefelau rhent yn cyrraedd y 40% a gofnodwyd yn Swydd Aberdeen, bydd cyfraddau tlodi yn yr ardal allweddol yr effeithir arni yn cynyddu'n sylweddol hyd at 2020, gan effeithio ar y mwyafrif o rentwyr preifat yn yr ardal.

Ffigur 4.5: Cyfran yr aelwydydd incwm isel sy'n rhentu llety preifat sydd mewn tlodi, 2017 a 2020

Mewn tlodi
% o aelwydydd
2017
2020 S1
2020 S2
2020 S3

[page 17]

Cydnherthedd ariannol

Dengys Ffigur 4.6 lefel y risg ariannol ymhlith tenantiaid preifat incwm isel o dan Senario 3, gan ei chymharu â'r canfyddiadau o'r sefyllfa bresennol a Senarios 1 a 2.

Ffigur 4.6: Risg ariannol ymhlith rhentwyr preifat incwm isel, 2017 a 2020

% o aelwydydd

Ymdopi
Ei chael hi'n anodd ymdopi
Yn wynebu risg

2017
2020 S1
2020 S2
2020 S3

Yn Senario 1, mae 43.5% o aelwydydd yn ymdopi, ond mae'r ffigur hwn yn gostwng i 33.7% o dan Senario 2 a 29.4% o dan Senario 3. Mae nifer yr aelwydydd sy'n wynebu risg yn cynyddu'r sylweddol, o lai na hanner o dan Senario 1 i bron ddau o bob tri rhentwr preifat incwm isel o dan Senario 3. Fel y trafodwyd yn yr adran

flaenorol, byddai'r aelwydydd hyn yn wynebu heriau ariannol enfawr o ran talu eu costau misol, yn enwedig eu costau tai.

Yn Senario 3 mae 1,771 o aelwydydd wedi'u dosbarthu'n rhai sy'n wynebu risg. Byddai 179 yn wynebu diffyg o fwy na £200 yr wythnos. Os tybiwn y byddai'r grŵp hwn yn wynebu'r risg o gael eu troi allan o'u cartrefi o ganyniad i renti cynyddol, byddai'r gost sy'n gysylltiedig â llety dros dro yn fwy nag £1.6 miliwn.

Heb gymryd camau i liniaru effaith rhenti preifat sy'n cynyddu, mae'n bosibl y bydd awdurdodau lleol yn wynebu lefelau cynyddol o ddigartrefedd a chostau cynyddol sy'n gysylltiedig â chynnal aelwydydd digartref mewn llety dros dro. Trafodir yr effaith hon mewn ymchwil sy'n canolbwyntio ar effaith gorsaf bŵer Sir Benfro – mae'r adroddiad yn nodi'n glir y cysylltiad achosol rhwng lefelau rhent sy'n cynyddu a chynnydd mewn digartrefedd yn yr ardal³.

Rhewi'r Lwfans Tai Lleol

Dengys Tabl 4.3 y lefelau rhent presennol yn ôl nifer yr ystafelloedd gwely mewn cartref (ceir tabl manylach yn Atodiad 3). Dengys sut mae rhenti yn symud ymhellach ac ymhellach i fwrdd oddi wrth gyfradd y Lwfans Tai Lleol yn y tair senario a gyflwynir. Dengys y tabl faint o rent ychwanegol y byddai'n rhaid i breswylwyr ei dalu ym mhob math o eiddo. Yn Senario 3 byddai'n rhaid i'r aelwyd gyffredin â 2 ystafell wely dalu swm ychwanegol o £58.03 yr wythnos uwchlaw cyfradd y Lwfans Tai Lleol o gymharu â Senario 1, sy'n cyfateb i fwy na £3,000 y flwyddyn. Waeth beth fo maint yr eiddo bydd yn rhaid i denantiaid dalu swm sylweddol o rent ychwanegol bob wythnos.

[page 18]

Mae Atodiad 2 yn cyflwyno fersiwn fanylach o'r tabl hwn ac mae Atodiad 1 yn dangos rhestr gyflawn o nifer y rhentwyr preifat mewn gwahanol rannau o'r ardal allweddol yr effeithir arni a'r gwahaniaeth rhwng eu rhenti nhw a chyfradd y Lwfans Tai Lleol nawr, ac ym mhob un o'r tair senario.

Tabl 4.3: Rhenti cyfartalog a'r Lwfans Tai Lleol

	Cyfradd Lwfans Tai Lleol	Y gwahaniaeth rhwng y rhent cyfartalog (senario 1) a chyfradd y Lwfans Tai Lleol	Y gwahaniaeth rhwng y rhent cyfartalog (senario 2) a chyfradd y Lwfans Tai Lleol	Y gwahaniaeth rhwng y rhent cyfartalog (senario 3) a chyfradd y Lwfans Tai Lleol
1 ystafell wely	£71.61	£16.74	£47.77	£62.10
2 ystafell wely	£91.69	£20.73	£60.50	£78.76
3 ystafell wely	£110.72	£14.58	£60.03	£80.52
4 ystafell wely	£133.70	£7.90	£59.21	£82.36

Mae ein dadansoddiad yn awgrymu y bydd y cap ar y Lwfans Tai Lleol yn effeithio ar 586 o rentwyr preifat ychwanegol os bydd rhenti yn cynyddu ar y cyfraddau sydd

wedi'u modelu yn Senario 3. Mae hyn yn cynyddu cyfanswm yr aelwydydd y mae'r cap ar y Lwfans Tai Lleol yn effeithio arnynt i 2,671, sef 96.6% o'r garfan. Diffyg wythnosol yr aelwydydd hyn, rhwng eu rhent a'u Budd-dal Tai, yw £71.88, ar gyfartaledd. O'r 2,671 o aelwydydd, mae 43.0% yn ddiwaith oherwydd anabledd ac mae 22.6% yn gweithio.

Dengys Tabl 4.4 y mathau o aelwyd sy'n talu rhent uwchlaw cyfradd y Lwfans Tai Lleol yn Senario 3. Mae mwy na hanner yr aelwydydd yn y garfan hon yn aelwydydd un person, tra bod 25% yn aelwydydd unig riant.

Tabl 4.4: Math o aelwyd sy'n talu rhent uwchlaw cyfradd y Lwfans Tai Lleol	
Math o aelwyd	Nifer yr aelwydydd senario 2
Cwpl â phlant	310
Cwpwl heb blant	240
Unig riant	684
Un person	1,437

[page 19]

Senario 3: Manylion yr effaith

Dengys Tabl 4.5 fanlynon effeithiau Seenario 3. Dengys nifer yr aelwydydd sy'n colli mwy na £50 yr wythnos, sydd mewn tlodi ac sy'n wynebu risg yn ôl math o aelwyd, statws economaidd ac anabledd.

Dengys y tabl y mathau o aelwyd a fydd yn colli mwy na £50 yr wythnos yn y senario hon. Mae unig rieni ac aelwydydd un person yn dioddef, tra bod y rhai sy'n gweithio a'r rhai sy'n ddiwaith oherwydd anabledd hefyd ar eu colled yn sylweddol.

Aelwydydd un person yw'r grŵp mwyaf sydd mewn tlodi ac sy'n wynebu risg, a hynny o bell ffordd. Yn 2017 mae 630 o aelwydydd â phlant sydd mewn tlodi, o dan Senario 3 mae'r ffigur hwn yn cynyddu i 921. Y grwpiau economaidd pwysig sy'n wynebu risg ac sydd mewn tlodi yw'r rhai nad ydynt yn gweithio, yn enwedig y rhai sy'n cael budd-daliadau anabledd neu analluogrwydd.

Tabl 4.5: Manylion effeithiau senario 2			
	Collwyd £50+ yr/w	Mewn tlodi	Yn wynebu risg
Cyfanswm	2,427	2,386	1,771
Math o aelwyd			
Cwpl â phlant	12.4%	11.7%	9.3%
Cwpwl heb blant	9.6%	8.4%	9.1%
Unig riant	28.1%	26.9%	20.1%
Un person	50.0%	53.0%	61.6%
Statws economaidd			
Yn gweithio	23.2%	22.1%	15.5%
Ddim yn gweithio – gofalwr	3.3%	3.7%	3.8%
Ddim yn gweithio – anabl	42.5%	38.0%	37.0%

Ddim yn gweithio – unig riant	9.4%	9.6%	10.0%
Ddim yn gweithio – arall	21.6%	26.6%	33.6%
Anabledd			
Anabl	45.0%	39.2%	38.1%
Ddim yn anabl	55.1%	60.9%	61.9%

[page 20]

5. Casgliad ac argymhellion

Yn y cyfnod cyn 2020, mae rhentwyr preifat yn yr ardal allweddol yr effeithir arni yn debygol o wynebu costau ychwanegol sylweddol ac yn annhebyol o allu cynnal eu safonau byw presennol. Heb gymryd camau i liniaru'r effaith, bydd llawer yn y garfan yn wynebu cyfraddau rhent sydd gryn dipyn yn uwch na'u cyfradd Lwfans Tai Lleol a byddant yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd.

Mae'r dadansoddiad hwn wedi nodi sut mae dulliau gwahanol o fesur safonau byw yn rhoi gwahanol senarios o ran yr effaith y bydd adeiladu gorsaf bŵer Wylfa yn ei chael ar yr ardal. Yn benodol, dengys y gall mesur Policy in Practice o gydnerthedd ariannol helpu i nodi nifer yr aelwydydd sy'n wynebu risg yn fwy manwl, pan ystyried newidiadau mewn rhenti. Ochr yn ochr â'r ffigurau ar gyfer tlodi cymharol, mae mesur cydnerthedd ariannol yn galluogi awdurdodau lleol i nodi'n gliriach pa aelwydydd sy'n wynebu anawsterau ariannol ac sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref a gorfod symud o'u hardal leol.

Mae'r canfyddiadau hyn yn nodi cyfres o ardaloedd allweddol lle y gallai Cyngorau Ynys Môn, Conwy a Gwynedd, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, weithredu i leihau'r effaith negyddol y mae'r garfan hon yn debygol o'i hwynebu yn y blynyddoedd sy'n arwain at 2020.

Buddsoddi mewn tai fforddiadwy

Dylai Cyngor Ynys Môn, Cyngor Conwy a Chyngor Gwynedd, gan weithio mewn partneriaeth agos â Llywodraeth Cymru, cymdeithasau tai a datblygwyr lleol, ystyried cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yn y blynyddoedd i ddod. Bydd cynyddu'r cyflenwad o eiddo yn yr ardal allweddol yr effeithir arni yn helpu i liniaru effaith prisiau rhent preifat sy'n cynyddu a ddangosir yn y dadansoddiad hwn.

Yn ddelfrydol, byddai cyngorau yn cynyddu'r cyflenwad o lety cymdeithasol a ddarperir mewn ardaloedd lle mae'r rhan fwyaf o rentwyr preifat incwm isel yn byw. Dengys Ffigur 5.1 ddosbarthiad rhentwyr preifat incwm isel yn yr ardal allweddol yr effeithir arni. Yr ardaloedd sydd â mwy na 100 o aelwydydd yw Tref Caergybi, Pant-yr-afon/Penmaenan a Phorthladd Amlwch. Mae gan Dref Caergybi fwy na 160 o aelwydydd incwm isel sy'n rhentu llety preifat ac, ynghyd â Phorthladd Amlwch, fe'i lleolir yn agos at y safle lle y caiff yr orsaf bŵer newydd ei hadeiladu. Byddai tenantiaid preifat incwm isel sy'n byw yn y ddwy ardal hyn (a'r ardaloedd eraill sydd wedi'u lliwio'n las tywyll ar y map isod), yn cael budd o gyflenwad uwch o dai

fforddiadwy pan fydd y galw am lety yn cynyddu, a fydd yn helpu i gyfyngu ar y cynnydd yn y rhent y maent yn ei dalu am eu cartrefi.

[page 21]

Ffigur 5.1: Nifer yr aelwydydd sy'n rhentu llety preifat yn ôl ardal gymunedol

Cyfanswm nifer y rhentwyr Preifat

Ymgysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth ganolog y DU i gynyddu cyfradda'r Lwfans Tai Lleol

Mae cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol yn hollbwysig yng nghyd-destun prisiau rhent sy'n cynyddu Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyflwyno'r Gronfa Fforddiadwyedd wedi'i Thargeddu (TAF) er mwyn cynyddu cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol mewn ardaloedd penodol hyd at 4% bob blwyddyn.

Ni chynhwysydd Ardal Marchnad Rentu Ehangach (BRMA) Gogledd-orllewin Cymru yn y rhestr o ardaloedd wedi'u targedu hyd yma. Gallai Cyngor Ynys Môn, Cyngor Conwy a Chyngor Gwynedd, a Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r dadansoddiad hwn, wedi'i ategu gan dystiolaeth o'r cynnydd disgwyledig mewn rhenti preifat, i ymgysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Mae'r wybodaeth hon yn cefnogi'r achos dros ddyrannu cyllid ychwanegol i gyfradd Lwfans Tai Lleol Gogledd-orllewin Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi asesiad o'r effaith y bydd adeiladu gorsaf bŵer Wylfa yn ei chael ar yr ardal leol a gall gefnogi'r achos dros sicrhau Cyllid Fforddiadwyedd wedi'i Dargeddu ar gyfer Gogledd-orllewin Cymru.

Sicrhau bod trigolion incwm isel yn rhannu manteision economaidd yr orsaf bŵer

Mae'r gwaith o adeiladu'r orsaf bŵer yn debygol o greu swyddi yn lleol a hybu twf economaidd yn yr ardal allweddol yr effeithir arni. Nid yw ein dadansoddiad wedi ystyried y manteision i drigolion incwm isel yn yr ardal a allai ddeillio o orsaf bŵer Wylfa. Mae'n anodd nodi'r effeithiau ar gyflogaeth, er enghraifft mae'n anodd gweld yr effaith y mae'r orsaf bŵer yn Sir Benfro¹⁶ wedi'i chael ar gyflogaeth leol. y prif fuddsoddwr yn y prosiect, bydd yr orsaf bŵer yn cyflogi 850 o bobl pan fydd yn weithredol, a llawer mwy pan fydd yn cael ei hadeiladu¹⁷. Bydd cyfran o'r cyflogaeth hyn yn weithwyr lleol. Dylai Cyngor Ynys Môn, Cyngor Conwy a Chyngor Gwynedd, ynghyd â Llywodraeth Cymru, fanteisio ar y cyfle hwn er mwyn sicrhau y gall hyd yn oed y trigolion hynny sydd fwyaf agored i niwed gael budd o ddatblygu'r orsaf bŵer.

[page 22]

¹⁶ Gweler ystadegau'r SYG ar gyfer yr orsaf bŵer yn Sir Benfro ar gyflogaeth leol: http://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157391/subreports/ea_time_series/report.aspx?
¹⁷ <https://www.horizonnuclearpower.com/our-sites/wylfa-newydd/faqs>

1. Ystyried gweithio gyda Horizon Nuclear Power a'r Ganolfan Byd Gwaith, neu gyrff cyfryngol eraill yn y farchnad lafur, i asesu anghenion y farchnad lafur leol o ran sgiliau a hyfforddiant er mwyn galluogi unigolion i fanteisio ar y cyfleoedd cyflogaeth newydd hyn yn y byrdymor a'r hirymor.

2. Targedu cymorth cyflogaeth at y 862 o aelwydydd sy'n ddiwaith heb unrhyw rwystrau amlwg i weithio a nodwyd gan y dadansoddiad hwn

3. Mae nifer fawr o aelwydydd heb waith yn cael budd-dal anabledd ac analluogrwydd. Defnyddio rhaglenni lleol neu genedlaethol, megis y rhaglen Gwaith ac Iechyd er mwyn helpu'r aelwydydd hyn i gael gwaith. Creu partneriaethau â chyflogwyr er mwyn hwyluso lleoliadau gwaith i'r aelwydydd hyn

Defnyddio data gweinyddol ar lefel aelwyd i fonitro ymyrraeth

Mae canfyddiadau'r senarios a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn nodi effeithiau rhagamcanol. Gall Cyngor Ynys Môn, Cyngor Conwy a Chyngor Gwynedd olrhain yr effaith wirioneddol ar drigolion, o fis i fis yn y blynyddoedd cyn i orsaf bŵer Wylfa gael ei hadeiladu, gan ddefnyddio data Budd-dal Tai a chymorth y dreth gyngor. Bydd hyn yn galluogi'r cyngorau i dargedu cymorth at aelwydydd sydd â'r angen mwyaf a sicrhau na fydd lefelau tlodi a digartrefedd yn cynyddu.

Drwy fonitro effaith yr orsaf bŵer a'r camau a gymerir i liniaru problemau posibl, bydd y tri chyngor yn gallu asesu pa ymyriadau yw'r rhai mwyaf llwyddiannus o ran lleihau'r pwysau ar aelwydydd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y caiff arian ei dargedu'n effeithiol ac yr effeithir ar aelwydydd cyn lleied â phosibl. Mae Policy in Practice, mewn partneriaeth â nifer o awdurdodau lleol, wedi datblygu dangosfwrdd newydd y Traciwr Teuluoedd Incwm Isel, sef adnodd y bwriedir iddo gynnig atebion lleol i fynd i'r afael â thlodi.

[page 23]

Atodiad 1: Yr ardal allweddol yr effeithir arni

Gorsaf bŵer Wylfa

Ddim yn ardal allweddol yr effeithir arni

Ardal allweddol yr effeithir arni

Enw'r ardal	Nifer y rhentwyr preifat	Rhent cyfartalog nawr	Y gwahaniaeth rhwng y rhent cyfartalog nawr a swm cyfartalog y Lwfans Tai Lleol	Y gwahaniaeth rhwng y rhent cyfartalog senario 1 a swm cyfartalog y Lwfans Tai Lleol	Y gwahaniaeth rhwng y rhent cyfartalog senario 2 a swm cyfartalog y Lwfans Tai Lleol	Y gwahaniaeth rhwng y rhent cyfartalog senario 3 a swm cyfartalog y Lwfans Tai Lleol
Aberffraw	50	£414.57	£14.71	£13.99	£50.78	£66.56

Porthladd Amlwch	111	£401.63	£11.31	£10.62	£46.27	£61.55
Amwch Wledig	26	£470.56	£23.15	£22.34	£64.10	£82.01
Arllechwedd	31	£373.65	£9.78	£15.51	£42.30	£56.52
Biwmares	34	£433.27	£20.77	£20.02	£58.48	£74.97
Bethel	12	£483.46	£16.84	£24.24	£58.91	£77.32
Bodffordd	31	£444.26	£24.20	£23.43	£62.86	£79.77
Bodorgan	37	£449.91	£24.18	£23.40	£63.33	£80.46

[page 24]

Enw'r ardal	Nifer y rhentwyr preifat	Rhent cyfartalog nawr	Y gwahaniaeth rhwng y rhent cyfartalog nawr a swm cyfartalog y Lwfans Tai Lleol	Y gwahaniaeth rhwng y rhent cyfartalog senario 1 a swm cyfartalog y Lwfans Tai Lleol	Y gwahaniaeth rhwng y rhent cyfartalog senario 2 a swm cyfartalog y Lwfans Tai Lleol	Y gwahaniaeth rhwng y rhent cyfartalog senario 3 a swm cyfartalog y Lwfans Tai Lleol
Bontnewydd	13	£458.96	£18.23	£25.26	£58.18	£75.64
Braint	17	£406.48	£13.95	£13.25	£49.33	£64.80
Bryn	49	£457.63	£23.57	£26.44	£63.39	£80.81
Bryngwran	51	£394.30	£8.92	£8.24	£43.23	£58.24
Brynteg	47	£472.42	£28.78	£27.97	£69.90	£87.88
Cadnant	51	£399.40	£16.36	£19.48	£51.12	£66.32
Cefni	15	£382.10	£3.39	£2.73	£36.64	£51.18
Cwm Cadnant	14	£505.47	£25.27	£24.40	£69.26	£88.50
Cwm-y-Glo	10	£405.57	£12.02	£18.23	£47.32	£62.75
Cyngar	39	£487.80	£28.98	£28.14	£71.43	£90.00
Deiniol	27	£436.47	£27.87	£34.55	£65.85	£82.46
Deiniolen	54	£391.24	£13.89	£19.88	£47.94	£62.83
Garth	18	£367.46	£16.00	£21.62	£47.97	£61.96
Gerlan	59	£413.53	£14.20	£20.53	£50.18	£65.92
Glyder	3	£494.43	£35.71	£43.28	£78.73	£97.55
Groeslon	13	£303.20	-£13.79	-£9.15	£12.59	£24.13
Gwyngyll	9	£485.18	£33.69	£32.86	£75.92	£94.38
Hendre	21	£475.24	£25.71	£32.98	£67.06	£85.15
Hirael	23	£344.04	£9.50	£14.76	£39.44	£52.53
Tref Caergybi	168	£390.87	£8.64	£7.96	£42.65	£57.53
Kingsland	68	£392.71	£6.75	£6.08	£40.93	£55.88
Llanbadrig	41	£441.09	£20.55	£19.79	£58.94	£75.73
Llanbedrgoch	37	£446.64	£17.56	£16.79	£56.43	£73.43
Llanddyfnan	13	£414.05	£16.12	£15.40	£52.15	£67.91
Llaneilian	47	£415.25	£14.69	£13.97	£50.83	£66.63
Llanfaethlu	41	£390.08	£6.51	£5.84	£40.46	£55.30
Llanfair-yn-Neubwll	92	£433.41	£12.23	£11.48	£49.95	£66.44
Llanfihangel Ysgeifiog	27	£457.25	£21.12	£20.33	£60.91	£78.32

Llangoed	16	£466.81	£21.27	£20.46	£61.89	£79.66
Llanidan	50	£406.99	£11.41	£10.71	£46.83	£62.32
Llanllyfni	29	£349.95	£1.41	£6.77	£31.86	£45.18
Llannerch-y-medd	41	£423.21	£9.01	£8.28	£45.84	£61.95
Llanrug	24	£429.31	£12.23	£18.80	£49.59	£65.93
Llanwnda	20	£398.42	£16.61	£22.71	£51.28	£66.44
London Road	87	£426.50	£14.43	£13.69	£51.54	£67.78
Maeshyfyd	85	£435.26	£12.20	£11.45	£50.08	£66.64
Marchog	33	£488.14	£31.58	£39.05	£74.06	£92.64
Mechell	37	£403.70	£9.29	£8.59	£44.42	£59.79
Menai (Bangor)	24	£387.57	£18.05	£23.99	£51.78	£66.53

[page 25]

Enw'r ardal	Nifer y rhentwyr preifat	Rhent cyfartalog nawr	Y gwahaniaeth rhwng y rhent cyfartalog nawr a swm cyfartalog y Lwfans Tai Lleol	Y gwahaniaeth rhwng y rhent cyfartalog senario 1 a swm cyfartalog y Lwfans Tai Lleol	Y gwahaniaeth rhwng y rhent cyfartalog senario 2 a swm cyfartalog y Lwfans Tai Lleol	Y gwahaniaeth rhwng y rhent cyfartalog senario 3 a swm cyfartalog y Lwfans Tai Lleol
Menai (Caernarfon)	49	£432.74	£20.19	£26.82	£57.85	£74.32
Moelfre	15	£484.99	£21.03	£20.20	£63.24	£81.70
Morawelon	18	£418.86	£10.91	£10.18	£47.36	£63.30
Ogwen	93	£407.77	£14.81	£21.05	£50.30	£65.82
Pandy	40	£455.92	£20.77	£23.63	£60.45	£77.80
Pant-yr-afon/Penmaenan	117	£429.64	£18.66	£21.35	£56.05	£72.40
Parc a'r Mynydd	11	£477.87	£16.75	£15.92	£58.33	£76.52
Peblig (Caernarfon)	27	£456.70	£25.41	£32.40	£65.15	£82.53
Penisarwaun	29	£395.62	£9.65	£15.71	£44.08	£59.14
Pentir	39	£455.71	£22.11	£29.09	£61.77	£79.12
Pentraeth	28	£450.94	£18.87	£18.09	£58.11	£75.27
Penygroes	62	£397.26	£10.49	£16.57	£45.06	£60.18
Porthyfelin	85	£404.72	£12.82	£12.12	£48.04	£63.45
Rhosyr	52	£390.47	£7.55	£6.88	£41.53	£56.39
Seiont	10	£441.07	£20.09	£26.84	£58.47	£75.26
Talysarn	42	£412.58	£13.31	£19.62	£49.21	£64.91
Trearddur	30	£484.79	£30.10	£29.26	£72.29	£90.74
Tregarth a Mynydd Llandygai	21	£406.34	£14.17	£20.39	£49.53	£65.00
Tudur	14	£464.63	£13.75	£12.95	£54.19	£71.87
Tysilio	21	£554.43	£38.22	£37.27	£86.47	£107.57
Cwm	29	£426.74	£14.18	£13.45	£51.32	£67.56
Waunfawr	28	£477.93	£30.63	£37.94	£72.22	£90.41

Y Felinheli	58	£429.81	£21.84	£28.42	£59.24	£75.60
Rhosneigr	0	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G
Clynnog	0	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G
Dewl	0	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G

[Page 26]

[page 27]

Atodiad 2: Rhent a Lwfans Tai Lleol

Tabl 5.2.1							
	Cyfradd Lwfans Tai Lleol	Rhent cyfartalog senario 1	Y gwahaniaeth rhwng y rhent cyfartalog (senario 1) a chyfradd y Lwfans Tai Lleol	Rhent cyfartalog senario 2	Y gwahaniaeth rhwng y rhent cyfartalog (senario 2) a chyfradd y Lwfans Tai Lleol	Rhent cyfartalog senario 3	Y gwahaniaeth rhwng y rhent cyfartalog (senario 3) a chyfradd y Lwfans Tai Lleol
1 ystafell wely	£71.61	£88.35	£16.74	£119.38	£47.77	£133.71	£62.10
2 ystafell wely	£91.69	£112.42	£20.73	£152.19	£60.50	£170.45	£78.76
3 ystafell wely	£110.72	£125.30	£14.58	£170.75	£60.03	£191.24	£80.52
4 ystafell wely	£133.70	£141.60	£7.90	£192.91	£59.21	£216.06	£82.36

[page 28]

Policy in Practice

Ein cenhadaeth yw lleihau tlodi. Rydym yn gwneud hyn drwy symleiddio'r ffordd y caiff y system les ei gweithredu. Credwn fod newid yn digwydd yn y rheng flaen.

Roedd Deven Ghelani yn aelod o'r tîm yn y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol a ddatblygodd Gredyd Cynhwysol a, phan fabwysiadwyd y polisi gan y Llywodraeth, gadawodd er mwyn sefydlu Policy in Practice. Roedd yn awyddus i sicrhau bod y bwriad polisi yn cael ei roi ar waith mewn gwirionedd.

Mae Policy in Practice wedi hwyluso sgysiau rhwng awdurdodau lleol arweiniol a swyddfa'r Prif Weinidog er mwyn sicrhau bod adborth o'r rheng flaen ynglŷn â pholisi ar ddiwygio'r system les yn cael ei glywed.

Rydym hefyd yn helpu sefydliadau lleol i ddeall effaith gyfunol a chronnol newidiadau diwygio lles ar eu cwsmeriaid er mwyn iddynt allu targedu rhaglenni cymorth yn gywir.

Ac, yn olaf, er mwyn cau pen y mwdwl, mae'r feddalwedd y mae Policy in Practice wedi'i datblygu yn symleiddio'r sgysiau y gall cynghorwyr rheng flaen eu cael â

chwsmeriaid drwy ddangos yn glir pa fudd-daliadau y gallant eu cael o dan y system bresennol a phan fyddant yn symud i Gredyd Cynhwysol, gan gymharu'r ddau ochr yn ochr drwy ddefnyddio adnodd delweddu data.

Polisi
effaith genedlaethol

Ymgynghoriaeth
effaith leol

Meddalwedd
effaith unigol

Cysylltu â ni
Ffoniwch 0330 088 9242
E-bostiwch hello@policyinpractice.co.uk
Ewch i www.policyinpractice.co.uk
Anfonwch neges drydar i [@policy_practice](https://twitter.com/policy_practice)

Dadansoddwr: Jethro Martin
Ffoniwch: 07519223579
E-bostiwch: jethro@policyinpractice.co.uk